Cofnodion cyfarfod hybrid **y CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Mehefin 2025, yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

**19. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, y trafodion drwy arwain y rhai a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs S. L. Connolly, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor a Ms R. S. Roberts.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

**20. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd y Maer a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i ddatgan hynny ynghylch unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Gwnaeth y Cynghorydd W. Price ddatgan buddiant personol yn eitem agenda rhif 16 gan ei fod wedi cymryd swydd fel Cadeirydd newydd Cymdeithas y Gerddi Botanegol yn ddiweddar.

**21. PENODI CADETIAID ANRHYDEDD Y MAER**

Croesawodd y Maer Gadetiaid y Môr, Thomas Hopkins a Ben Harley, o Gadetiaid y Môr y Rhyl, i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am gytuno i ymgymryd â'r rolau, gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at eu gweld drwy gydol y flwyddyn i ddod. Gwahoddodd y Maer y Cadet Anrhydedd a'r Cadet Anrhydedd wrth gefn i ddod ymlaen i dderbyn eu bathodynnau.

**22. COFNODION**

Cyfarfod y Cyngor - 28 Mai 2025 - Cofnodion rhifau 1- 18

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

## 23. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu ef a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf, gan gynghori ei fod wedi bod yn sâl ac wedi methu mynd i'r perfformiad 'Young Up Hearts' yn Theatr Farch y Rhyl. Fodd bynnag, roedd wedi gwneud dau gyfweliad, un ar gyfer BBC Wales ac un ar gyfer podlediad Anabledd y BBC. Dywedodd eu bod yn brofiadau diddorol a chadarnhaol.

Dywedodd y Dirprwy Faer wrth yr aelodau fod y derbyniad ar gyfer Diwrnod Annibyniaeth Ynysoedd y Ffilipin a'r dathliad amrywiaeth diwylliannol a gynhaliwyd yng ngogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd wedi bod yn rhagorol, gyda chymaint o wisgoedd gwladol hardd, rhai wedi'u gwneud o binafalau hyd yn oed!

## 24. CYLCH GWAITH PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU 2025/2026

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad Cylch Gwaith blynyddol, yn cadarnhau cylch gwaith pob un o'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau, gan gynghori mai'r unig brif newid eleni oedd na fwriedir i'r Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol gyfarfod eleni, ond ei fod wedi'i gadw yn y strwythur pe bai angen cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad, gydag aelodaeth yr Is-bwyllgor Dinesig a Digwyddiadau Cymdeithasol, yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol, i'w hadolygu drwy gydol y flwyddyn.*

## 25. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS MAI 2025 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan nodi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb: | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| 1995 | HSBC | 17.78 | Ffioedd bancio |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig – taliad 2 o 10 |
| 1998 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,644.08 | Tâl net pedwar aelod o staff – mis Mai 2025 |
| 1996 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,409.19 | Talu wrth Ennill – mis Ebrill 2025 |
| 1997 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,269.79 | Cyfraniadau pensiwn – mis Ebrill 2025 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| 2006a | BT | 489.82 | Swyddfa Neuadd y Dref – band eang a ffôn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2006b | BT | 378.00 | Swyddfa Neuadd y Dref – band eang a ffôn |
| 2006c | BT | 378.00 | Swyddfa Neuadd y Dref – band eang a ffôn |
| 2006d | BT | 36.00 | Swyddfa Neuadd y Dref – band eang a ffôn |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **17,492.64** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 234.04 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuon 1 mis a aeddfedodd ar 27 Mai 2025 | 1,023.84 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **1,257.88** |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 26. <u>AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)</u>

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwr | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2012 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres – mis Ionawr, mis Chwefror a mis Mawrth 2025 | £108.00 |
| 2016 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr | £259.32 |
| 2017 | Canda Copying Ltd | Ffioedd y llungopïwr | £136.95 |
| 2018 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | £163.74 |
| 2019 | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Stêm y Rhyl | Yswiriant Billy a'r plat enw | £254.80 |
| 2020 | Mr Shifter Removals | Symud offer o Ffordd Wellington i Neuadd y Dref | £108.00 |
| 2022 | Homestart Sir Ddinbych | Gwasanaethau a gomisiynwyd – Prosiect Teulu'r Rhyl | £2,000.00 |
| 2023 | BJS Solutions | Offer a'u gosod yn y swyddfeydd newydd yn Neuadd y Dref | £1,313.05 |
| 2024 | JDH Business Services Ltd | Ffi terfynol archwilio mewnol 24/25 | £494.40 |
| 2025 | Morrisons | Lluniaeth ysgafn i'r Cyfarfod Blynyddol | £105.50 |
| 2026 | Morrisons | Lluniaeth ysgafn i'r Cyfarfod Blynyddol | £1.70 |
| 2027 | Sainsburys | Lluniaeth ysgafn i'r Cyfarfod Blynyddol | £70.20 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2035 | Sandra Williams | Gwasanaeth Cyfieithu | £287.55 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£5,303.21** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 27. ADRODDIAD TERFYNOL ARCHWILIO MEWNOL 2024-25

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad terfynol yr Archwiliwr Mewnol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a oedd yn nodi tri mater eleni.

Y cyntaf, y cynhelir adolygiad ffurfiol o reolaethau mewnol y Cyngor Tref, a gwblhawyd ym mis Mawrth.

Yr ail, bod cronfeydd wrth gefn y Cyngor Tref yn uwch na'r hyn a argymhellir a dylid cysylltu'r arian i brosiectau a chynlluniau yn hytrach na'i adael heb ei ddyrannu. Cynghorodd Clerc y Dref ymdrin â hyn yn naturiol drwy gydol y flwyddyn, gyda nifer o eitemau gwariant wedi'u cynllunio.

Y trydydd, nad oes gan y Cyngor Tref yswiriant cywirdeb digonol i'w amddiffyn yn erbyn twill. Roedd lefel blaenorol yr yswiriant o £750,000 wedi'i gynyddu i £800,000.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, dywedodd Clerc y Dref y gallai'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel cyllid cyfatebol ar gyfer unrhyw gyllid grant yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD***:

*(i)* *Derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a godwyd a nodi'r camau gweithredu.*

*(ii)* *Cyfeirio'r materion a nodwyd i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau i'w monitro ymhellach.*

## 28. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2024-25

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'r datganiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan dynnu sylw at y ffaith fod 10 datganiad yn Rhan 1 i'r Cyngor Tref ateb un ai 'ie' neu 'na', gyda phedwar datganiad newydd wedi'u hychwanegu eleni.

Yn achos y 10 datganiad, atebwyd saith gydag 'ie' a thri gyda 'na'. Roedd esboniadau ar gyfer yr atebion 'na' wedi'u rhoi gyda'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r datganiad a'i lofnodi gan y Maer, ar ran y Cyngor Tref.*

## 29. DATGANIAD BLYNYDDOL 2024-25

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y Datganiad Blynyddol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei gymeradwyo a'i awdurdodi, ac i'r Maer, fel Cadeirydd y cyfarfod, i'w lofnodi ar ran y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiad Blynyddol 2024-25 a'i lofnodi gan y Maer, ar ran y Cyngor Tref, i'w gyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru.*

**30. YMGYNGHORIAD: LLWYBRAU I WAITH**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y ddogfen ymgynghori uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, i'r aelodau ei ystyried.

Awgrymodd Clerc y Dref fod yr aelodau'n cyflwyno eu sylwadau iddi hi erbyn dydd Mercher, 25 Mehefin, er mwyn iddi lenwi'r ffurflen ar-lein ar ran y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r aelodau'n cyflwyno eu sylwadau i Glerc y Dref erbyn dydd Mercher, 25 Mehefin.*

**31. EITEM GAN AELOD: CAIS GAN DREFNWYR CARNIFAL Y RHYL**

Cynghorodd y Cynghorydd K. R. Jones, fel aelod cyswllt y Cyngor Tref â threfnwyr y Carnifal, ei fod yn cynorthwyo'r pwyllgor drwy drefnu ymgyrch codi sbwriel cyn diwrnod y carnifal, sef dydd Sul, 6 Gorffennaf, a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref roi cardiau rhodd gwerth £20 i dair cystadleuaeth, yn unol â chais trefnwyr y Carnifal.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**32. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

**33. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**34. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS Y RHYL**

Cynghorodd y Maer na allai Paul Jackson fod yn y cyfarfod fel y trefnwyd, yn anffodus, a chroesawodd Mr Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi, a Mrs Hayley Jones, Prif Reolwr y Gwasanaethau Arlwyo a Glanhau, i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch yr aelodau ar y sefyllfa ddiweddaraf, mewn cyfrinachedd.

Esboniodd Mr Ward y byddai'r cynnig arfaethedig i gyflwyno rhwystrau talu di-gyswllt yn yr holl doiledau cyhoeddus yn lleddfu peth o'r pwysau ariannol ar

Gyngor Sir Ddinbych, felly roedd y cais a oedd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Tref nawr ychydig yn fwy derbyniol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych eisiau gweld yr holl doiledau cyhoeddus yn cael eu cad war agor, ond y reality yw nad oes arian ar gael i barhau i wneud hynny, a rhaid rhoi blaenoriaeth i'w gyfrifoldeb statudol niferus. Mae toiledau cyhoeddus yn swyddogaeth anstatudol.

Cynghorodd Mr Ward fod costau'r pump set o doiledau cyhoeddus yn y Rhyl (yn yr Arena Digwyddiadau, Neuadd y Dref, Hen Ffordd y Golff, y Gerddi Botanegol a Phentre'r Plant) yn cael eu rhannu gyda'r Cyngor Tref erbyn diwedd yr wythnos er mwyn iddo ystyried pa gyfraniad ariannol, os o gwbl, y gallai ei wneud i alluogi'r cyfan neu rai o'r toiledau hyn i barhau'n agored.

Atebodd y swyddogion nifer o gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau ac, ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y Maer iddynt am ddod i'r cyfarfod.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *yn dilyn derbyn y costau llawn ar gyfer pob un o'r toiledau, byddai Clerc y Dref yn galw Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor, os oedd angen, er mwyn i'r aelodau ystyried y cais yn drylwyr.*

**35. <u>CYFETHOL CYNGHORYDD CYMUNED – WARD BODFOR</u>**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad mewn cyfrinachedd a'r cais a dderbyniwyd (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dilyn yr hysbysiad cyhoeddus yn gwahodd diddordeb gan unigolion lleol i wneud cais am y swydd.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn y cais.*

**36. <u>SEFYDLIAD Y CYNGOR TREF</u>**

Ar ran Pwyllgor Staffio'r Cyngor, darparodd Clerc y Dref a Chadeirydd y Pwyllgor ddiweddariad llafar, mewn cyfrinachedd, ar y sefyllfa staffio gyfredol, a oedd yn bwrw ymlaen yn dda.

**37. <u>DIWEDD Y CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..……………………..

Dyddiad: ………………..………..